CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunityCouncil.co.uk

Cofnodion drafft Cyfarfod Cyffredin hybrid y Cyngor a gynhaliwyd gan ddefnyddio platfform fideo a ffôn gynadledda Zoom yn ogystal ag wyneb yn wyneb yng Ngholeg Llysfasi nos Lun, 10 Hydref 2022 am 7pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Moulsdale [Is-gadeirydd], Eilir Jones, Osian Owen, Ceri Ranson, Shaun Williams, Huw Edwards ac Owen Evans.
Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol hefyd ynghyd â'r Clerc mewn Gofal, Sian E Thomas.

Dechreuodd y cyfarfod am 7:02pm.

Rhan 1

894. Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod a chyhoeddodd fod Eirwen Godden wedi gadael ei swydd fel Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol oherwydd salwch. Diolchwyd iddi am ei holl waith caled dros y blynyddoedd. Hefyd crybwyllodd fod Steve Whipp wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd a diolchodd iddo yntau am ei waith clodwiw fel cynghorydd.

895. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd David Baker.

896. Derbyniwyd Datganiad o Fuddiant gan y Cynghorydd Owen ynghylch eitem 904c.

897. Roedd y cyflwyniad i'w gyflwyno gan Tom Johnstone wedi'i aildrefnu i'r cyfarfod nesaf.

898. Sesiwn cyfranogiad cyhoeddus yn parhau am uchafswm o 10 munud.
Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn:
    1. Pwy sy'n berchen ar yr hen ysgol?
    Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Cyngor Sir Ddinbych yn parhau yn berchnogion yr hen ysgol yn Llanfair.
    2. A oes unrhyw gynghorwyr yn mynd ar y cwrs Mannau Agored Un Llais Cymru?
    Nodwyd, gan fod y cwrs yn cael ei gynnal yn ystod y dydd, ei bod yn anodd i gynghorwyr fynd ar y cwrs. **Gweithred**: Y Clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru i weld a yw'r cwrs ar gael ar-lein i gynghorwyr ei ddilyn pan fo'n gyfleus iddynt.
    3. Soniwyd bod dau eicon yn yr agenda ar y wefan wedi gwrthod agor.
    Gweithred: Y Clerc i ymchwilio.

899. Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

900. Materion yn codi o'r cofnodion

a. Cynhyrchwyd taflen ar gyfer y cyfarfod agored yng Nghae Llinos ddydd Sadwrn, 3 Medi. Daeth nifer dda i'r digwyddiad ac roedd yr adborth yn gadarnhaol, a gwnaed addasiadau bach i'r cynllun yn dilyn derbyn yr adborth.

b. Cynhaliwyd cyfarfod â Chadwyn Clwyd i drafod y cynnydd a wnaed a'r ffordd ymlaen o ran y grant Cymunedau Gwyrdd. Mae'r Clerc wedi dechrau llenwi'r ffurflen gais a dyfynbrisiau'n cael eu casglu.

c. Bydd yr offer sefydlog yn y maes chwarae yn cael ei gytuno arno a'i brynu gan y Grŵp Rheoli.

d. Cynhaliwyd cyfarfod â Chyngor Sir Ddinbych ym mis Medi ynghylch y diweddaraf am adeilad yr hen ysgol. Yn anffodus ni fu unrhyw gynnydd go iawn. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gobeithio gwerthu'r adeilad a'r buarth trwy dendr fel un uned, felly roedd mynediad i'r cae ar draws y buarth yn cael ei atal.

Yn achos elusendai Ymddiriedolaeth Elizabeth Owen mae llawer o gymhlethdodau cyfreithiol. Mae Grŵp Cynefin yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Elusennau. Y cynnig yw, os bydd unrhyw elw dros ben ar ôl gwerthu'r eiddo, gellid ffurfio ymddiriedolaeth newydd er budd trigolion Llanfair, yn cynnwys aelodau Cyngor Sir Ddinbych, Grŵp Cynefin a'r Cyngor Cymuned. Nid yw'r Comisiwn Elusennau wedi cytuno ar hyn eto ac mae Grŵp Cynefin yn delio â'r mater trwy eu cyfreithwyr. Mae'r Gofrestra Tir yn dangos bod y Gofeb Rhyfel yng nghwrtil yr Elusendai. Bydd rhaid ymchwilio i hyn gan fod y Cyngor Cymuned wedi talu £35,000 i adnewyddu'r Gofeb.

Gofynnwyd i Gyngor Sir Ddinbych dynnu'r gorchuddion ffenestri oddi ar yr hen ysgol gan eu bod yn edrych yn hyll. Bwriedir cynnal cyfarfod arall rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r Cyngor Cymuned ym mis Tachwedd. **Penderfynwyd:** Bod y Cynghorwyr yn fodlon â'r sefyllfa o ran unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio at fudd y gymuned a sefydlu ymddiriedolaeth newydd, os yw'r Comisiwn Elusennau'n cytuno i hynny.

e. Cludiant ysgol – ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych. **Gweithred:** Y Clerc i fynd ar ôl hyn.

f. Terfyn cyflymder – bydd y terfyn cyflymder y tu allan i Ysgol Pentrecelyn yn cael ei leihau i 20 milltir yr awr fis Medi nesaf, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

g. Atal llifogydd – anfonwyd gwybodaeth at Alex Bebbington ac rydym yn aros am ymateb. **Gweithred**: Y Clerc i fynd ar ôl hyn.

901. Cytunwyd i ddechrau'r broses o benodi cynghorydd newydd ac y byddai'r hysbysiadau priodol yn cael eu harddangos ar yr hysbysfyrddau ac ar y wefan.

902. Diweddariad Trosglwyddo Ased Cymunedol

a. Gobeithir y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn trosglwyddo'r cae i'r Cyngor Cymuned yn fuan iawn.

b. Cynllun gosod y cae. Er bod Cynllun Meistr wedi'i gynhyrchu, nid yw wedi'i naddu mewn carreg a gellid ystyried rhagor o glustogau rhwng y tai amgylchynol.

c. Grant Cymunedau Gwyrdd. Cynhaliwyd cyfarfod â Chadwyn Clwyd a chawsom ein hysbysu fod y gyllideb wedi cynyddu i £50k erbyn hyn. Rydym ni yn y broses o gael dyfynbrisiau ar gyfer y ffensio, hysbysfwrdd, gwrychoedd, coed, cysgod, meinciau a lefelu'r tir. Nid oes angen caniatâd cynllunio na Phriffyrdd ar gyfer y fynedfa newydd i gerddwyr wrth ymyl yr hen ysgol. Cytunwyd i lunio llwybr addas i gadeiriau olwyn nesaf at yr ysgol yn hytrach nag wrth ymyl y gwrych sy'n bodoli eisoes. Bydd caergewyll yn cynnwys blodau gwyllt yn cael eu defnyddio i wneud hyn. Bydd giatiau a ffensys priodol yn cael eu gosod lle mae'r giat bresennol ar ben uchaf y cae ar hyn o bryd. **Gweithred:** Y Clerc i wneud ymholiadau pwy sydd biau'r goeden fawr ar ochr dde'r fynedfa gyfredol.

d. Mae'r Cyngor wedi derbyn llythyr yn mynegi pryder gan breswylydd y mae ei gartref yn ffinio ar y cae ynghylch cynllun gosod yr offer yn y cae. **Gweithred**: Y Clerc i ymateb i ddweud bod y pryderon yn cael eu hystyried.

e. Cytunwyd bod angen sefydlu'r Gymdeithas Cae Chwarae gynted ag y bo modd a bydd cyfarfod cyntaf y Grŵp yn cael ei gynnal nos Iau, 20 Hydref, yn Neuadd Eleanor am 7.30pm. Bydd angen Cadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd. **Penderfynwyd**: Mae'r Is-gadeirydd wedi cynnig bod yn Gadeirydd y Grŵp am y 12 mis cyntaf ac y bydd y Clerc yn Drysorydd, gyda'r Cyngor Cymuned yn talu am hynny, am y 12 mis cyntaf. Bydd yr Is-gadeirydd yn cysylltu â'r rhai sydd wedi dangos diddordeb mewn bod yn rhan o'r Gymdeithas i'w hysbysu am y cyfarfod.

f. **Penderfynwyd**: y bydd y Cyngor Cymuned yn gwneud cais am y grant Cymunedau Gwyrdd ac yn gwneud y gwaith caib a rhaw tra bo'r grŵp newydd yn cael ei sefydlu, a fydd yn arwain y prosiect wedyn.

903. Materion Priffyrdd ac Amgylcheddol

a. Cysylltwyd â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch y problemau goryrru yn Llanfair DC a Graigfechan. Cyflwynir diweddariad yn ein cyfarfod nesaf unwaith y byddwn wedi derbyn ymateb.

b. Cysylltwyd â Chyngor Sir Ddinbych hefyd ynghylch arwydd pentref newydd i Lanfair DC gan fod yr un cyfredol yn fach a'r teimlad cyffredinol yw ei fod yn y lleoliad anghywir.

c. Soniwyd y cysylltwyd â David Jones, Aelod Seneddol, beth amser yn ôl ynghylch camerâu sŵn yn yr ardal ond yn anffodus ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach.

d. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor Cymuned weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Cymuned Gwyddelwern ac Efenechtyd i weld a yw'n bosibl gosod camerâu cyflymder cyfartalog. **Gweithred**: Y Clerc i gysylltu â'r ddau gyngor i holi eu barn.

e. Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i aros i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu biniau sbwriel newydd. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych.

904. Materion Cyllid

a. **Penderfynwyd**: caniatáu cyllideb o £700 i £800 + Treth ar Werth i'r Clerc i brynu gliniadur newydd a meddalwedd.

b. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiweddariad am y sefyllfa bancio a'r tasgau ariannol ac roedd angen cymeradwyo'r taliadau a ganlyn:

i. Treuliau terfynol i'r Clerc wedi ymddeol - £307.23
ii. Sandra Williams, cyfieithiadau - £72.66
iii. Swayne Johnson – Cae Chwarae - £775.00
iv. Y Clerc – tanysgrifiad Zoom blynyddol a phrynu co bach - £155.87
Penderfynwyd: gwneud y taliadau.

c. Derbyniwyd ceisiadau am gyfraniadau gan:

i. Tŷ Gobaith
ii. Cylch Meithrin Pentrecelyn
iii. Tenovus
iv. Yr Eglwys ar gyfer torri glaswellt
Penderfynwyd oedi'r holl geisiadau am gyfraniadau nes bo'r Clerc wedi llunio cyllideb chwe mis. Bydd hyn ar gael yn ein cyfarfod nesaf.

d. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y Rhestr Taliadau ar gyfer Gorffennaf ac Awst.

Mis Gorffennaf

Dyddiad	**I**	Swm	**Sylwadau**
18/07/2022	AVOW	£530.50	Cyflog mis Gorffennaf y Clerc
21/07/2022	HSBC	£5.00	Taliadau banc mis Mehefin 2022
23/07/2022	S Williams	£399.42	Gwasanaethau cyfieithu
		£934.92	

Mis Awst

Dyddiad	**I**	**Swm**	**Sylwadau**
02/08/2022	AVOW	475.95	Tâl y Clerc mewn Gofal, mis Gorffennaf 2022
16/08/2022	AVOW	475.95	Tâl y Clerc mewn gofal, mis Awst 2022

DRAFT

18/08/2022	AVOW	£530.50	Cyflog y Clerc, mis Awst 2022
21/08/2022	HSBC	£5.00	Taliadau banc mis Gorffennaf 2022
		£1,487.40	

Mis Medi

Dyddiad	I	Swm	Sylwadau
01/09/2022	Clerc	£475.95	Cyflog mis Awst 2022
20/09/2022	AVOW	£530.50	Cyflog y Clerc, mis Medi 2022
21/09/2022	HSBC	£5.80	Taliadau banc mis Awst 2022
		£1,012.25	

905. Coeden anniogel yn y cae chwarae – mae preswylydd Hafod y Bryn wedi cynnig trefnu torri'r goeden a thalu'r costau ei hun, oherwydd pryderon am y risgiau i'w eiddo. Trefnodd y Cyngor Cymuned arolwg coed fis Tachwedd diwethaf, yn awgrymu mai dyma fyddai'r ffordd orau ymlaen am resymau iechyd a diogelwch. **Penderfynwyd:** Cytuno i'r cais i dorri'r goeden. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â'r preswylydd i'w hysbysu am y penderfyniad hwn.

906. Materion Cynllunio. Gofynnodd y Cadeirydd i'r holl Gynghorwyr ateb negeseuon e-bost gan y Clerc ynghylch ceisiadau cynllunio er mwyn iddi allu ymateb yn ffurfiol i Gyngor Sir Ddinbych.
Crybwyllodd y Cadeirydd ei bod yn ymwybodol o gais cynllunio newydd yng Nghraigfechan. **Gweithred:** Y Clerc i rannu'r cais arfaethedig â'r Cynghorwyr pan dderbynnir y cais.

Nodwyd y derbyniwyd ceisiadau cynllunio yng nghyswllt 8 Cae Mair a Lychgate Cottage rhwng cyfarfodydd y Cyngor. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr ateb y Clerc trwy neges e-bost. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

907. Gohebiaeth i'w adolygu

Aeth y Cadeirydd drwy'r rhestr a chytunwyd y dylai'r Clerc lenwi'r Arolwg Gwyrdd ac atgoffwyd y cynghorau i gwblhau arolwg y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw.

908.

Eitemau y tynnwyd sylw'r Cynghorwyr atynt

a. Mae ardal yng Nghraigfechan wedi cael ei ffensio gan Gyngor Sir Ddinbych i ddarparu ardal eistedd i'r trigolion. **Gweithred**: Y Clerc i wirio nad yw ar gyfer lle i gŵn gael ymarfer yn unig.

b. Adroddwyd fod Cyngor Sir Ddinbych yn ymwybodol o'r goeden farw yng Nghae Mair ac yn disgwyl i Pure waredu'r goeden a rhoi coeden sylweddol newydd yno.

c. Mae angen torri'r gwrych yr ochr isaf i'r Three Pigeons yng Nghraigfechan. **Gweithred**: Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i weld ai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hyn.

909. Cytunwyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 14 Tachwedd 2022 am 7:30pm. Cafwyd trafodaeth ynghylch symud dyddiad y cyfarfodydd i ddydd Llun cyntaf y mis o fis Chwefror 2023 ymlaen. **Gweithred:** Y Clerc i wirio efo Coleg Llysfasi i sicrhau bod yr ystafell ar gael.

910. Gwnaed **penderfyniad** i symud y cyfarfod i Ran 2.

Rhan 2

911. Dywedodd y Cadeirydd fod y Clerc blaenorol wedi cyflwyno ei hymddiswyddiad oherwydd gwaeledd iechyd, yn weithredol o 31 Awst 2022. Roedd y Clerc mewn gofal wedi bod yn y swydd ers 1 Gorffennaf ar sail locwm. Gan fod y Clerc mewn gofal wedi gweithredu mor hyfedr a chymwys, ac yn dilyn ymgynghori â SLCC, argymhellodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd y gellid cynnig swydd Clerc Cyngor Cymuned Llanfair DC i'r Clerc mewn Gofal ar sail barhaol. Cytunodd y Cynghorwyr yn unfrydol a derbyniwyd y cynnig swydd.

Gorffennodd y cyfarfod am 20:35pm.

CADEIRYDD DYDDIAD

…… ……

DRAFT